CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADNODDAU DYNOL, EFFEITHLONRWYDD A CHYDWEITHIO

DYDD MERCHER, 8FED MEHEFIN, 2016

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd: L.M. Stephens [Aelod o'r Bwrdd Gweithredol]

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:-

Mrs L. Evans	-	Swyddog Polisi a Phartneriaeth
Mrs M. Evans Thomas	-	Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd

Ystafell Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, Neuadd y Sir, Caerfyrddin : 2.00 p.m. – 2.40 p.m.

1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 28AIN GORFFENNAF, 2015

PENDERFYNWYD llofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 28 Gorffennaf, 2015 yn gofnod cywir.

3. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR Y GYMRAEG 2015-16

Rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i'r Adroddiad Blynyddol ar yr Iaith Gymraeg 2015-16, a fanylai ar y gwaith a wnaed gan y Cyngor mewn perthynas â'r iaith Gymraeg yn ystod y cyfnod hwnnw ac a luniwyd er mwyn cydymffurfio â threfniadau monitro Comisiynydd y Gymraeg.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Gynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Gweinidogion Cymru i gydymffurfio â'r Safonau mewn perthynas â'r Gymraeg.

Mae'r Safonau yn golygu na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg a rhaid iddynt hefyd hybu neu hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Mae hyn yn unol â'r ddwy egwyddor sy'n ffurfio'r sail ar gyfer gwaith Comisiynydd y Gymraeg:-

- yng Nghymru, ni ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- dylai pobl yng Nghymru fod yn gallu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dewis gwneud hynny.

Disodlodd fframwaith y Safonau gynlluniau iaith Gymraeg o 31 Mawrth, 2016 ymlaen a bydd y Safonau yn:-

- rhoi mwy o eglurder i sefydliadau ynghylch eu dyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg;
- rhoi mwy o eglurder i siaradwyr Cymraeg ynghylch y gwasanaethau y

gallant ddisgwyl eu derbyn yn y Gymraeg;
- sicrhau mwy o gysondeb o ran gwasanaethau Cymraeg ac yn gwella eu hansawdd.

Rhoddodd Comisiynydd y Gymraeg hysbysiad cydymffurfio i Gyngor Sir Caerfyrddin ynghylch Rheoliadau Safonau'r Gymraeg ar 30 Medi, 2015, sy'n mynnu bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r rhan fwyaf o'r Safonau erbyn 31 Mawrth, 2016.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar gynnwys y newidiadau a nodwyd, fod yr Adroddiad Blynyddol ar yr Iaith Gymraeg 2015-16 yn cael ei gymeradwyo i'w gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg.

_____ _____

CADEIRYDD **DYDDIAD**